



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



Canllawiau ar yr Economi Ymwelwyr – Rhestr wirio i fusnesau twristiaeth a lletygarwch

Efallai na fydd angen y canlynol i gyd arnoch chi – ac efallai y bydd elfennau eraill o'ch busnes penodol chi i'w hystyried – ond gobeithio y bydd hon o ddefnydd i chi, ochr yn ochr â'r [canllawiau](#) llawn. Rydym yn disgwyl i'r ddogfen hon gael ei diweddarau dros amser. Mae'r fersiwn hwn yn gyfredol ar 8 Gorffennaf 2020.

Dylid adolygu cynlluniau'n rheolaidd, a rhaid iddynt gynnig ffordd ofalus o ailagor. Dylai sefydliadau hefyd ganolbwyntio ar greu atebion mae modd eu haddasu, hynny yw atebion y byddai modd eu rhewi neu eu gwrthdroi'n gyflym petai rhagor o achosion o COVID-19. Mae [rhestr o ddolenni cyflym](#) ar gael ar ddiwedd y rhestr wirio hon. Mae'n cynnwys dolenni Llywodraeth Cymru a dolenni trydydd parti sy'n benodol i'r sector.

Gweithio o fewn rheoliadau a chanllawiau iechyd y cyhoedd

Edrychwch ar y Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws perthnasol i Gymru a gwneud yn siŵr eich bod yn cael ailagor.	
Meddyliwch am unrhyw gyfnodau rhybudd neu drefniadau eraill sydd eu hangen er mwyn i staff sydd ar ffyrlo neu sydd wedi cael eu symud allu dychwelyd i'r gwaith.	
EWCH DROS GANLLAWIAU DIWEDDARAF LLYWODRAETH CYMRU YNGHYLCH IECHYD, CADW PELLTER CYMDEITHASOL A CHORFFOROL A GOLCHI DWYLO A HYLENDID ANADLOL.	
Cynhaliwch asesiad risg COVID-19 priodol yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru . Defnyddiwch y canllawiau i'ch helpu i wneud penderfyniadau a llunio mesurau rheoli. Ymgynghorwch ag undebau a/neu weithwyr. Rhaid i chi ysgrifennu eich asesiad risg os ydych chi'n cyflogi mwy na 5.	
Defnyddiwch ganllawiau UKH Cymru ar y cyd ag adnoddau eraill sy'n berthnasol i'r sector. Mae hi hefyd yn bosibl y bydd cyrff y diwydiant yn gallu darparu enghreifftiau neu dempledi er mwyn i chi allu cynnal asesiad risg priodol.	
Ar gyfer hunanddarpar, edrychwch ar ganllawiau Cynghair Twristiaeth Cymru .	
Cwtogwch ar yr angen am deithiau gwaith a chyswllt wyneb yn wyneb. Meddyliwch am broffil oedran eich gweithlu.	
Meddyliwch am y lefel sylfaenol ddiogel o staff – er enghraifft er mwyn cynnal protocolau COVID-19 penodol ac er mwyn gallu gweithredu os bydd aelod o staff/gwirfoddolwr yn mynd yn sâl, neu os bydd angen ynysu'n barhaus. Meddyliwch sut gallai hyn ddylanwadu ar faint o ymwelwyr mae modd eu cael ar y safle. Meddyliwch pa drefniadau mae angen eu rhoi ar waith os bydd rhywun yn mynd yn sâl yn y safle.	
Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol i gael cyngor i gefnogi eich asesiad risg. Gall swyddogion y cyngor roi templedi, nodiadau cyfarwyddyd a rhestrau gwirio.	
Meddyliwch am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut gallant barhau i ddefnyddio eich lleoliad/gwasanaethau yn ddiogel.	
Meddyliwch sut byddwch yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg wrth newid eich gweithgareddau/gwasanaethau.	

Rhannwch ganlyniadau eich asesiad risg â'ch gweithlu a ystyriwch safonau y diwydiant . Meddyliwch am gyhoeddi'r canlyniadau ar eich gwefan, ar wefan benodol i gyflogeion neu drwy borth a ddefnyddir i gyfathrebu â chyflogeion (disgwylir i bob cyflogwr sydd â 50+ o weithwyr wneud hynny).	
Cynllunio a pharatoi gweithleoedd/lleoliadau/adeiladau ar gyfer ailagor	
Cynhaliwch archwiliadau iechyd a diogelwch statudol ar adeiladau cyn ailagor i staff neu ymwelwyr ee legionella, tymheredd dŵr, profion nwy a thrydan.	
Rhowch drefniadau glanhau diwygiedig a gwell ar waith.	
Dewch o hyd i unrhyw ymyriadau ffisegol sydd eu hangen er mwyn rhoi'r mesurau hyn ar waith.	
Darparu toiledau mwy diogel i'r cyhoedd. Cyfeiriwch at ganllawiau ar gyfer rheoli toiledau a ddefnyddir gan y cyhoedd yn ddiogel.	
Diogelwch a pharodrwydd am argyfwng	
Meddyliwch am oblygiadau diogelwch unrhyw newidiadau a wnewch i'ch ffyrdd o weithio. Peidiwch â chael gwared ag unrhyw nodweddion diogelwch heb ystyried diogelwch amddiffynnol yn gyffredinol.	
Gnewch yn siŵr bod unrhyw addasiadau oherwydd COVID-19 yn cefnogi eich parodrwydd am argyfwng ee eich mannau ymgynnull pan fydd larwm tân, mynediad ar gyfer timau ymateb i argyfwng, delio â phobl dreisgar neu ymosodol a sefyllfaoedd eraill sy'n peryglu bywyd.	
Gnewch yn siŵr bod y swyddogion cymorth cyntaf sydd wedi cael eu hyfforddi yn dal yn barod i gyflawni'r rolau hyn. Diweddarwch unrhyw hyfforddiant cymorth cyntaf i gynnwys protocolau COVID-19.	
Profi, Olrhain, Diogelu – Iechyd	
Darllenwch ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfrifoldebau cyflogwyr i helpu gyda phroffion COVID-19 ac olrhain cysylltiadau . Mae olrhain cysylltiadau'n rhan bwysig o'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu a fydd yn ein helpu i fyw a gweithio ochr yn ochr â'r feirws wrth i ymchwil barhau i ddod o hyd i driniaethau mwy effeithiol a brechlyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen cwestiynau am Olrhain Cysylltiadau a dylid cyfeirio at hon ochr yn ochr â'r canllawiau uchod.	
Cyfathrebu	
Adolygwch sut rydych chi'n cyfathrebu, gan ystyried canfyddiadau'r cyhoedd a'ch cymuned leol.	
Ewch ati i gynllunio eich bod yn cyfathrebu ac yn cysylltu'n barhaus â chymunedau lleol i godi eu hyder eich bod wedi paratoi i leihau lledaeniad COVID-19.	
Adolygu	
Adolygwch bob polisi bob wythnos yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau'r llywodraeth, y gwersi sydd wedi cael eu dysgu ac enghreifftiau o'r arferion gorau mewn llefydd eraill.	
Pwy ddylai fynd i'r gwaith	
Meddyliwch pwy sy'n gorfod bod yn y safle; er enghraifft dylai gweithwyr cefn tŷ weithio gartref pan fydd hynny'n rhesymol ymarferol.	
Cynlluniwch ar gyfer y nifer sylfaenol o bobl y bydd angen iddynt fod ar y safle er mwyn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.	
Cadwch mewn cysylltiad â gweithwyr oddi ar y safle ynghylch eu trefniadau gweithio gan gynnwys eu lles, eu hiechyd meddwl a chorfforol, a'u diogelwch personol.	
Rhowch gyfarpar i bobl allu gweithio gartref yn ddiogel ac yn effeithiol, er enghraifft mynediad o bell at systemau gwaith.	
Amddiffyn Pobl sydd mewn Risg Uchel	
Edrychwch ar y canllawiau cyfredol i gael cyngor ynghylch pwy sydd yn y grŵp eithriadol o agored i niwed yn glinigol ac yn y grŵp agored i niwed yn glinigol.	
Rhowch sylw penodol i bobl sy'n byw gydag unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol.	
Cynghorwyd yn gryf i unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol beidio â gweithio y tu allan i'r cartref:	
• Helpwch nhw i weithio gartref, naill ai yn eu rôl bresennol neu mewn rôl arall.	

Unigolion sy'n agored i niwed yn glinigol (ond ddim yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol) nad ydynt yn gallu gweithio gartref: - Cynigwch y rolau mwyaf diogel sydd ar gael ar y safle, gan sicrhau eu bod yn cadw'r pellter angenrheidiol oddi wrth bobl eraill. - Os bydd yn rhaid iddynt dreulio amser yn nes na hynny at bobl eraill, aseswch yn ofalus a ddylai'r gweithgaredd hwn gael parhau. Os felly, cymerwch gamau lliniaru eraill i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint rhwng y staff. - Yn yr un modd ag unrhyw risg yn y gweithle rhaid i chi ystyried dyletswyddau penodol i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys, er enghraifft, menywod beichiog sydd bob amser â hawl i gael cyfnod o'r gwaith gyda thâl llawn os nad oes modd dod o hyd i rolau addas.	
Pobl y mae angen iddynt hunanynysu	
Galluogwch weithwyr i weithio gartref wrth iddynt hunanynysu os yw'n briodol.	
Edrychwch ar y canllawiau cyfredol ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr sy'n ymwneud â thâl salwch oherwydd y coronafeirws.	
Edrychwch ar y canllawiau cyfredol ar gyfer pobl sydd â symptomau a'r rheini sy'n byw gyda phobl sydd â symptomau.	
Cydraddoldeb yn y gweithle	
Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall ac yn ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.	
Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys ac yn cyfathrebu'n briodol â gweithwyr y gallai eu nodweddion gwarchodedig olygu bod ganddynt lefel wahanol o risg, neu a allai olygu bod unrhyw gamau rydych chi'n eu hystyried yn amhriodol neu'n anodd iddynt.	
Meddyliwch a oes angen i chi roi unrhyw fesurau neu addasiadau penodol ar waith er mwyn ystyried eich dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb.	
Gwnewch addasiadau rhesymol i sicrhau na fydd gweithwyr anabl dan anfantais. Aseswch y risgiau iechyd a diogelwch i famau newydd neu fenywod beichiog.	
Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall ac yn ymateb i bryderon y rheini sy'n ystyried eu hunain mewn mwy o risg.	
Gwnewch yn siŵr na fydd y camau byddwch chi'n eu cymryd yn cael effaith negyddol nad oes modd ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o'u cymharu ag eraill, er enghraifft, y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu neu'r rheini sydd ag ymrwymïadau crefyddol.	
Cadw pellter corfforol yn y gwaith	
Cydymffurfwch â'r gofynion cadw pellter corfforol sydd yn Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws Cymru.	
Pan na fydd modd cadw pellter corfforol yn llwyr, mewn perthynas â gweithgaredd penodol, meddyliwch a oes angen i'r gweithgaredd hwnnw barhau. Cymerwch bob cam lliniaru posibl i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint rhwng eich staff a phawb a allai fod ar y safle.	
Meddyliwch sut mae pobl yn teithio'n ôl ac ymlaen i'r gwaith i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar drafnidiaeth gyhoeddus brysur. Dangoswch hyblygrwydd ee edrychwch ar amseroedd dechrau a gorffen gwahanol a chefnogwch y gweithwyr i deithio'n ôl ac ymlaen i'r gwaith.	
Cynyddwch pa mor aml mae pobl yn golchi eu dwylo a pha mor aml caiff arwynebau eu glanhau, gan gynnwys diheintio ardaloedd lle bydd llawer o bobl neu fannau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml.	
Cadwch y gweithgaredd lle nad oes modd cadw pellter corfforol mor fyr â phosibl.	
Defnyddiwch sgriniau neu rwystrau i gadw pobl ar wahân.	
Gweithiwch gefn wrth gefn neu ochr yn ochr (yn hytrach nag wyneb i wyneb) pan fo'n bosibl.	
Cwtogwch ar nifer y bobl mae pob unigolyn yn dod i gyswllt â nhw drwy ddefnyddio 'partneriaid neu dimau sefydlog' (er mwyn i bob unigolyn weithio gyda dim ond ychydig o bobl eraill).	
Os oes rhaid i bobl weithio wyneb yn wyneb am gyfnod hir gyda mwy na grŵp bach o bartneriaid penodol, aseswch a oes modd i'r gweithgaredd hwn fwrw ymlaen yn ddiogel ai peidio. Dylai eich asesiad ystyried yn benodol a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith yn arbennig o agored i niwed oherwydd y coronafeirws. Mae asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer menywod beichiog, dim ots beth yw maint y busnes.	

Aseswch bob ardal i gadw pellter corfforol ee mynedfeydd ac allanfeydd, ystafelloedd egwyl, safleoedd paratoi a storfeydd, y ffreutur a lleoliadau tebyg.	
Cyrraedd a gadael y gwaith	
Os oes modd, gwasgarwch amseroedd dechrau a gorffen y staff er mwyn osgoi cael llawer o bobl wrth y mynedfeydd a'r allanfeydd ar yr un pryd.	
Darparwch ragor o le parcio neu gyfleusterau fel rheseli beiciau i helpu pobl i gerdded, rhedeg neu feicio i'r gwaith lle bo'n bosibl.	
Cwtogwch ar nifer y teithwyr mewn cerbydau corfforaethol, er enghraifft bysiau mini'r gwaith. Gallai hyn olygu gadael seddi'n wag.	
Cwtogwch ar dagfeydd, er enghraifft, drwy gael rhagor o fynedfeydd i'r gweithle mewn busnesau mwy.	
Defnyddiwch farciau a chyflwyno llif unffordd mewn mynedfeydd ac allanfeydd cefn tŷ neu sydd ar gyfer cyflogaion yn unig a phan fo'n briodol. Meddyliwch am strwythur y safle, y math o weithrediad a phroffil y cwsmeriaid.	
Darparwch gyfleusterau golchi dwylo i weithwyr, neu hylif diheintio dwylo lle nad yw hynny'n bosibl, ger y mynedfeydd a'r allanfeydd.	
Darparwch ddewisiadau eraill yn lle dyfeisiau diogelwch y mae'n rhaid eu cyffwrdd fel bysellbadau.	
Diffiniwch brosesau gwahanol ar gyfer mynedfeydd/allanfeydd lle bo'n briodol, er enghraifft dadalluogi darllenwyr pasys yn y giatiau tro (turnstiles), ac yn hytrach gofyn i staff ddangos pàs i staff diogelwch o bell.	
Symud o gwmpas adeiladau	
Cwtogwch ar symudiadau pobl drwy eu hannog i beidio â gwneud teithiau diangen mewn adeiladau ac ar safleoedd, ee, cyfyngu ar fynediad i rai ardaloedd ac annog pobl i ddefnyddio radios neu ffonau pan fydd hynny'n cael ei ganiatáu (cofiwch y bydd angen eu glanhau cyn i bobl wahanol eu defnyddio).	
Cyflwynwch ragor o lwybrau unffordd drwy adeiladau. Rhowch farciau ar y llawr a gosodwch arwyddion i atgoffa'r gweithwyr a'r cwsmeriaid i gadw pellter corfforol.	
Anogwch pobl i ddefnyddio'r grisiau pan fo'n bosibl a gwnewch yn siŵr bod y canllawiau'n cael eu glanhau'n rheolaidd. Cwtogwch ar y nifer mwyaf sy'n cael defnyddio'r lifft ar yr un pryd. Rhowch hylif diheintio dwylo ar gyfer defnyddio lifftiau. Gwnewch yn siŵr bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i lifftiau.	
Rheolwch y defnydd o fannau prysur gan gynnwys grisiau, coridorau, lifftiau, giatiau tro a llwybrau cerdded, er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Glanhewch a diheintiwch yr ardaloedd hyn yn amlach.	
Gweithleoedd a mannau gwaith	
Adolygwch gynlluniau i ganiatáu i weithwyr weithio'n bellach oddi wrth ei gilydd.	
Dylech neilltuo mannau gwaith i unigolion penodol lle bo'n bosibl. Os oes angen eu rhannu, dylai'r nifer lleiaf posibl o bobl eu rhannu, gan gadw pellter corfforol a dylid eu glanhau cyn i rywun gwahanol eu defnyddio.	
Os nad yw'n bosibl cadw mannau gwaith 2m ar wahân, yna meddyliwch a oes angen i'r gweithgaredd hwnnw barhau er mwyn i'r busnes allu gweithredu. Os felly, cymerwch pob cam lliniaru posibl i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint.	
Defnyddiwch dâp neu baent ar y llawr, pan fo'n briodol, i helpu pobl i gadw eu pellter. Defnyddiwch arwyddion neu fesurau cyfathrebu eraill ee cyhoeddiadau cyhoeddus, gan ystyried nodweddion yr adeilad, y math o fasnachu a phroffil y cwsmeriaid.	
Osgowch gael pobl yn gweithio wyneb yn wyneb, er enghraifft, drwy weithio ochr yn ochr neu drwy wynebu oddi wrth ei gilydd.	
Defnyddiwch sgriniau i greu rhwystrau ffisegol rhwng pobl.	
Defnyddiwch barau cyson os oes yn rhaid i bobl weithio'n agos at ei gilydd - er enghraifft, glanhau ystafelloedd gwesty neu wasanaethu cyfarpar mewn atyniad dan do.	
Cwtogwch ar y cyswllt sy'n ymwneud â thrafodion, er enghraifft, ystyried defnyddio taliadau digyswllt ac annog pobl i archebu ar-lein a thalu ymlaen llaw pan fydd hynny'n briodol.	

Os defnyddir arian parod, anogwch bobl i olchi eu dwylo'n amlach a chynnig rhagor o gyfleusterau golchi dwylo i weithwyr a chwsmeriaid, neu darparwch hylif diheintio dwylo pan nad yw hynny'n ymarferol.	
Ailfeddyliwch am arddangosiadau a hyrwyddiadau i leihau cyswllt uniongyrchol ac i gynnal pellter corfforol.	
Damweiniau, diogelwch a digwyddiadau eraill	
Dylai unrhyw un sy'n helpu pobl eraill roi sylw penodol i fesurau glanweithdra yn syth wedyn gan gynnwys golchi dwylo.	
Adolygwch eich gweithdrefnau digwyddiadau ac argyfyngau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r egwyddorion cadw pellter corfforol cymaint ag y bo modd (cofiwch mewn argyfwng – ee damwain, darparu cymorth cyntaf, tân neu ladrad – ni ddylai pobl gadw pellter cymdeithasol os byddai'n anniogel gwneud hynny).	
Rheoli eich cwsmeriaid, eich ymwelwyr a'ch contractwyr	
Aseswch nifer y cwsmeriaid/dwysedd y dorf a fyddai'n galluogi pobl i gadw pellter corfforol yn rhesymol mewn unrhyw ofod. Meddyliwch am gyfanswm arwynebedd y llawr yn ogystal â mannau cul ee drysau ac ardaloedd prysur.	
Meddyliwch am gyfyngu ar nifer y cwsmeriaid neu addasu dwysedd y dorf unrhyw bryd drwy ddefnyddio tocynnau gydag amser arnynt. Gofynnwch i gwsmeriaid archebu lle ymlaen llaw lle bo modd. Gwnewch ddarpariaeth ar gyfer y rheini heb fynediad i'r rhyngwrdd er mwyn iddynt allu archebu/gofyn cwestiynau all-lein.	
Evch ati i greu arwyddion clir i gwsmeriaid yn egluro'r darpariaethau sydd ar waith, gan eu hatgoffa i gadw pellter corffol (gan gynnwys pellter oddi wrth gyflogeion).	
Hyrwyddwch ddefnyddio taliadau digyswllt.	
Adolygwch sut mae cwsmeriaid yn symud drwy'r lleoliad ac o'i gwmpas (dan do ac yn yr awyr agored).	
Meddyliwch sut gallech chi addasu llif y cwsmeriaid a'r cyflogeion i leihau tagfeydd a chyswllt ee rheoli ciwiau neu lif unffordd, pan fo'n bosibl.	
Defnyddiwch rwystrau a staff i gyfeirio cwsmeriaid. Defnyddiwch safleoedd yn yr awyr agored i giwio pan fydd hynny ar gael ac yn ddiogel ee meysydd parcio. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi gynlluniau wrth gefn ar gyfer cyfnodau o dywydd gwael. Rheolwch y ciwiau i sicrhau na fyddant yn achosi risg i unigolion nac i fusnesau eraill.	
Gwnewch yn siŵr bod unrhyw newidiadau i fynedfeydd, allanfeydd a rheoli ciwiau yn ystyried addasiadau rhesymol ar gyfer y rheini sydd eu hangen, gan gynnwys cwsmeriaid anabl.	
Anogwch y cwsmeriaid i ddefnyddio hylif diheintio dwylo neu gyfleusterau golchi dwylo wrth iddynt ddod i'r safle er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo drwy gyffwrdd cynnyrch neu arwynebau.	
Atgoffwch y cwsmeriaid a ddaw gyda phlant eu bod nhw'n gyfrifol am eu goruchwylio bob amser ac y dylent ddilyn y canllawiau cadw pellter corfforol.	
Gweithiwch gyda'ch awdurdod lleol/landlord i ystyried effaith eich prosesau, gan gynnwys ciwiau, ar ardaloedd cyhoeddus ee y stryd fawr, meysydd parcio cyhoeddus, allanfeydd tân etc.	
Gweithiwch gyda'ch cymuned gyfagos i ystyried effaith eich gweithgareddau.	
Dynodwch safleoedd amlwg lle bydd cyflogeion ar gael i helpu cwsmeriaid gan gadw 2 fetr oddi wrthynt.	
Gweithiwch gyda busnesau cyfagos a'r awdurdodau lleol i wasgaru nifer y bobl sy'n cyrraedd drwy gydol y dydd ee drwy addasu'r oriau agor i leihau'r galw am drafnidiaeth gyhoeddus yn ystod amseroedd allweddol ac osgoi gorlenwi.	
Diogelwch	
Meddyliwch am unrhyw newidiadau gweithredol sy'n ymwneud â COVID-19 ochr yn ochr â'r goblygiadau i ddiogelwch.	
Siaradwch â'ch adran neu'ch rheolwr diogelwch i helpu i sicrhau bod diogelwch da yn cael ei gynnal cymaint ag y bo modd.	

Cynhaliwch asesiad risg o'r ardaloedd allweddol ee ciwio, archwilio a sgrinio (pan fydd hyn wedi cael ei gyfarwyddo gan bolisi ehangach gan y llywodraeth ar ddiogelwch) gan fod yn wylidwrus am fygythiadau posibl a rheoli mynediad.	
Ciwiau a chadw pellter corfforol	
Trefnwch y ciwiau mewn ardaloedd sydd eisoes yn cael eu diogelu. Os oes yn rhaid ciwio'r tu allan i'r ardaloedd sy'n cael eu diogelu, yna meddyliwch am y mannau gwan a'u lliniaru, er enghraifft drwy wneud y canlynol: • cyfeirio ciwiau y tu ôl i strwythurau ffisegol parhaol (ee celfi stryd, bolardiau, parciau trolïau a rheseli beiciau) i ddarparu atalfa weledol ac oedi; • cau mynediad i gerbydau i fannau a rennir; • addasu amseroedd gwasanaethu a danfon nwyddau; • lleihau'r cyfleoedd i gerbydau ryngweithio â cherddwyr (gan gynnwys cerbydau a allai fod yn wrthwynebus); • codi rhwystrau cadarn; • cyflwyno cyfyngiad cyflymder is a mesurau gostegu traffig.	
Peidiwch â rhoi gwybodaeth fanwl a chredadwy a allai helpu gelyn i ddod o hyd i darged deniadol ac ymosod arno ee peidiwch â chynnwys unrhyw beth mewn asesiadau risg manwl a gyhoeddir ar wefannau cyhoeddus.	
Archwilio a sgrinio	
Addaswch y prosesau i archwilio a sgrinio staff, contractwyr ac ymwelwyr er mwyn glynu wrth y mesurau cadw pellter cymdeithasol.	
Gwnewch yn siŵr bod y staff diogelwch yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ee drwy gael mynediad at gyfarpar diogelu personol priodol a chyfleusterau golchi dwylo. Gwnewch yn siŵr eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ac yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny.	
Staff, swyddogion diogelwch a stiwardio	
Daliwch ati i sicrhau bod ymwybyddiaeth o fygythiadau diogelwch yn cael ei chodi ochr yn ochr â risgiau iechyd a diogelwch drwy sesiynau briffio staff.	
Daliwch ati i gadw llygad barcud am unrhyw weithgareddau amheus a rhoi gwybod amdanynt cyn gynted â phosibl.	
Gwnewch yn siŵr bod system gyfathrebu dda ar waith i roi gwybod i bobl am unrhyw ddigwyddiad. Cynhaliwch ymarfer neu brawf byr i sicrhau bod y gweithdrefnau a'r cyfarpar ar gyfer hyn yn gweithio'n iawn.	
Mynediad cyfyngedig	
Dylai mynedfeydd sy'n cynnig mynediad cyfyngedig, fel y rheini sy'n agor drwy ddefnyddio bysellbad, biometreg a/neu basys barhau i fod ar waith yn llawn. Ni ddylid eu dadysgogi.	
Glanhewch fysellbadau a fioemetreg yn rheolaidd.	
Rhowch wybod i'r staff nad oes angen i'r cerdyn gyffwrdd y darllenydd – bydd cardiau rheoli mynediad agosrwydd (staff) yn gweithio o hyd at 10cm oddi wrth y darllenydd.	
Glanhau'r gweithle	
Cyn ailagor	
Aseswch yr holl safleoedd, neu rannau o safleoedd, sydd wedi bod ar gau. Dilynwch weithdrefnau glanhau a darparwch hylif diheintio dwylo cyn aildddechrau gweithio.	
Gwiriwch a oes angen i chi wasanaethu neu addasu systemau awyru, er enghraifft, er mwyn sicrhau nad yw'r lefelau awyru yn gostwng yn awtomatig gan fod nifer y bobl sy'n bresennol yn is na'r arfer. Gofynnwch am gyngor gan eich peirianwyr neu ymgynghorwyr awyru ac aerdymheru (HVAC).	
Cadw'r gweithle'n lân	
Glanhewch fannau gwaith a chyfarpar yn aml rhwng eu defnyddio, gan ddefnyddio eich cynnyrch glanhau arferol.	
Glanhewch wrthrychau ac arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd yn aml ee tiliau hunanwasanaeth, trolïau, peiriannau coffi, dyfeisiau sy'n cael eu dal gan y staff. Gwnewch yn siŵr bod trefniadau digonol ar gyfer gwaredu'r cynnyrch glanhau.	

Tacluswch fannau gwaith a chael gwared â gwastraff ac eiddo o'r ardal waith ar ddiwedd sifft.	
Os ydych yn glanhau ar ôl achos o COVID-19 sy'n hysbys neu sy'n cael ei amau, darllenwch y canllawiau penodol.	
Hylendid – golchi dwylo, cyfleusterau glanweithdra a thoiledau	
Darparwch arwyddion a nodiadau atgoffa rheolaidd i gadw at safonau hylendid.	
Darparwch hylif diheintio dwylo mewn sawl lleoliad yn ogystal ag mewn ystafelloedd ymolchi.	
Gwnewch yn siŵr bod y thoiledau'n cael eu cadw'n lân a bod pellter corfforol yn cael ei gadw gymaint ag y bo modd. Dylid defnyddio cyn lleied â phosibl o doiledau symudol a dylid bod yn arbennig o ofalus wrth lanhau thoiledau symudol.	
Glanhewch yr ardaloedd prysur a'r pwyntiau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn well ee canllawiau grisiau.	
Defnyddiwch farciau cadw pellter corfforol ar gyfer ardaloedd cyffredin megis thoiledau, cawodydd, loceri ac ystafelloedd newid ac mewn unrhyw ardaloedd eraill lle bydd pobl yn tueddu i giwio.	
Darparwch ragor o gyfleusterau gwastraff a chasglwch sbwriel yn amlach.	
Darparwch gyfleusterau sychu dwylo – naill ai tyweli papur neu beiriannau sychu trydanol.	
Glanhewch bwyntiau cyffwrdd allanol a mewnol yn unol â chanllawiau'r sector er enghraifft, reids mewn parciau thema ac atyniadau. Meddyliwch am gyflwyno mannau glanhau dwylo yn syth cyn ac ar ôl i gwsmeriaid eu defnyddio.	
Trin nwyddau a deunyddiau eraill	
Anogwch bobl i olchi eu dwylo'n amlach a chynnig mwy o gyfleusterau golchi dwylo i weithwyr/cwsmeriaid, neu darparwch hylif diheintio dwylo pan nad yw hynny'n ymarferol.	
Sefydlwch bwyntiau gollwng a chasglu lle bo hynny'n bosibl, yn hytrach na phasio nwyddau o law i law.	
Cadwch eitemau sy'n cael eu dychwelyd ar wahân i'r nwyddau/stoc sy'n cael eu harddangos i leihau'r tebygolrwydd o drosglwyddo drwy gyffwrdd.	
Cyfarpar Diogelu Personol a gorchuddion wyneb	
Os ydych eisoes yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn eich gwaith i amddiffyn yn erbyn risgiau heb fod yn rhai COVID-19, dylech barhau i wneud hynny.	
Wrth reoli'r risg o COVID-19, nid yw cyfarpar diogelu personol ychwanegol y tu hwnt i'r hyn yr ydych yn ei wisgo fel arfer yn cael ei argymhell oherwydd mae angen rheoli COVID-19 drwy gadw pellter cymdeithasol, hylendid a phartneriaid neu dimau sefydlog; nid drwy ddefnyddio cyfarpar diogelu personol.	
Oni bai eich bod chi mewn sefyllfa lle mae'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn uchel iawn, dylai eich asesiad risg adlewyrchu'r ffaith mai cyfyngedig yw rôl cyfarpar diogelu personol o ran darparu diogelwch ychwanegol.	
Fodd bynnag, os yw eich asesiad risg yn dangos bod angen cyfarpar diogelu personol, yna mae'n rhaid i chi ddarparu'r cyfarpar diogelu personol hwn yn rhad ac am ddim i weithwyr sydd ei angen. Rhaid i unrhyw gyfarpar diogelu personol a ddarperir ffitio'n iawn.	
Mae gwisgo gorchudd wyneb yn ddewisol ac nid yw'r gyfraith yn mynnu ei bod yn rhaid gwneud hynny, gan gynnwys yn y gweithle. Os byddwch yn dewis gwisgo gorchudd wyneb: - Defnyddiwch y gorchudd wyneb yn iawn a golchi eich dwylo cyn ei roi ymlaen a'i dynnu i ffwrdd. - Dylech osgoi cyffwrdd eich wyneb neu'ch gorchudd wyneb, gan y gallech ei halogi â germau oddi ar eich dwylo. - Newidiwch eich gorchudd wyneb os yw'n mynd yn damp neu os ydych chi wedi'i gyffwrdd. - Daliwch ati i olchi eich dwylo'n rheolaidd. - Newidiwch a golchi eich gorchudd wyneb bob dydd yn unol â chyfarwyddiadau'r Gwneuthurwr. Os nad oes modd ei olchi, gwaredwch y gorchudd yn ddiogel gyda'ch gwastraff arferol. - Cadwch bellter corfforol pan fo'n bosibl. - Cefnogwch eich gweithwyr i ddefnyddio gorchuddion wyneb yn ddiogel os ydynt yn dewis gwisgo un.	

Rheoli'r Gweithlu	
Patrymau sifftiau a grwpiau gweithio	
Trefnwch dimau neu grwpiau sifft felly pan na fydd modd osgoi cyswllt bod hyn yn digwydd rhwng yr un bobl.	
Nodwch adegau lle mae pobl yn gorfod pasio pethau'n uniongyrchol i'w gilydd a chanfod ffyrdd o gael gwared â chyswllt uniongyrchol fel drwy ddefnyddio manau gollwng neu barthau trosglwyddo.	
Teithio at ddiben gwaith	
Cwtogwch ar y teithio nad yw'n hanfodol – meddyliwch am ddewisiadau o bell yn gyntaf.	
Cwtogwch ar nifer y bobl sy'n teithio gyda'i gilydd mewn unrhyw un cerbyd, defnyddiwch bartneriaid teithio sefydlog ee teithio gyda'r un bobl bob amser, cynyddwch yr awyru pan fo hynny'n bosibl ac osgoi eistedd wyneb yn wyneb.	
Glanhewch gerbydau a rennir rhwng sifftiau neu wrth newid dwylo.	
Pan fydd gofyn i weithwyr aros o'u cartref, cofnodwch yr arhosiad yn ganolog a chadarnhau bod unrhyw lety dros nos yn bodloni'r canllawiau cadw pellter corfforol.	
Danfon i safleoedd eraill	
Rhowch weithdrefnau ar waith i leihau'r cyswllt rhwng pobl wrth ddanfon i safleoedd eraill.	
Cadwch y parau'n gyson lle mae angen dau unigolyn ar gyfer danfon.	
Cwtogwch ar y cyswllt yn ystod taliadau a chyfnewid dogfennau, er enghraifft, drwy ddefnyddio dulliau talu electronig a dogfennau wedi'u llofnodi a'u cyfnewid yn electronig.	
Cyfathrebu a hyfforddi – Dychwelyd i weithio	
Darparwch ddulliau cyfathrebu clir, cyson a rheolaidd i wella dealltwriaeth a chysondeb o ran ffyrdd o weithio.	
Ymgysylltwch â gweithwyr/cynrychiolwyr gweithwyr drwy lwybrau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes er mwyn esbonio a chytuno ar unrhyw newidiadau mewn trefniadau gweithio.	
Lluniwch ddeunyddiau cyfathrebu a hyfforddi ar gyfer gweithwyr cyn iddynt ddychwelyd i'r safle, yn enwedig mewn cysylltiad â gweithdrefnau newydd ar gyfer cyrraedd y gwaith.	
Arwyddion a dulliau cyfathrebu parhaus	
Daliwch ati i ymgysylltu â gweithwyr (gan gynnwys undebau llafur neu grwpiau sy'n cynrychioli gweithwyr) i fonitro ac i ddeall unrhyw effeithiau annisgwyl yn sgil newidiadau i amgylcheddau gwaith.	
Byddwch yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd meddwl ar adegau o ansicrwydd, a chanolbwyntio ar hynny.	
Defnyddiwch negeseuon syml a chlr i esbonio'r canllawiau drwy ddefnyddio lluniau ac iaith glir, gan ystyried grwpiau lle nad yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt a gan roi sylw i ganllawiau a Safonau'r Gymraeg.	
Defnyddiwch ddulliau cyfathrebu gweledol, er enghraifft, byrddau gwyn neu arwyddion, i esbonio newidiadau i amserlenni cynhyrchu, dadansoddiadau neu brinder deunyddiau i leihau'r angen i gyfathrebu wyneb yn wyneb.	
Ewch ati i gyfleu dulliau gweithredu a gweithdrefnau gweithredol i gyflenwyr, cwsmeriaid neu gyrff masnach i'w helpu i'w mabwysiadu ac i rannu profiadau.	
Nwyddau i mewn ac am allan	
Diwygiwch fannau casglu codi a gollwng, gweithdrefnau, arwyddion a marciau.	
Cwtogwch ar unrhyw gyswllt diangen yn y porthdy diogelwch, yr iard a'r warws. Ee danfon yn ddigyswllt lle mae natur y cynnyrch yn caniatáu defnyddio proses archebu electronig ymlaen llaw.	
Meddyliwch am ddulliau o leihau pa mor aml caiff nwyddau eu danfon, er enghraifft drwy archebu mwy yn llai aml.	
Lle bo'n bosibl ac yn ddiogel, gwnewch yn siŵr mai gweithwyr unigol sy'n llwytho neu'n dadlwytho cerbydau.	

Lle bo'n bosibl, defnyddiwch yr un parau o bobl ar gyfer llwythi lle mae angen mwy nag un.	
Galluogwch yrwyr i gael mynediad at gyfleusterau lles pan fo angen, yn unol â chanllawiau eraill.	
Anogwch yrwyr i aros yn eu cerbydau lle nad yw hyn yn peryglu eu diogelwch a'u harferion gweithio diogel sy'n bodoli eisoes, fel atal gyrru oddi ar y safle.	

Dim ond o fewn y [Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws](#) cyfredol y bydd modd ailagor busnesau yr economi ymwelwyr a hynny gan ystyried yr holl ganllawiau perthnasol yn briodol.

Mae crynodeb isod o'r rheoliadau a'r canllawiau diweddaraf.

Dolenni Cyflym: Darnau allweddol o ganllawiau Llywodraeth Cymru

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau dros amser – i gael y rhai diweddaraf ewch i: www.llyw.cymru/coronafeirws

1.	Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi
2.	Arwain Cymru allan o bandemig y coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad
3.	Canllawiau ar weithio'n ddiogel yn ystod COVID-19
4.	Rheoliadau coronafeirws: Cwestiynau Cyffredin
5.	Coronafeirws a chyfarpar diogelu personol
6.	Coronafeirws – cadw pellter cymdeithasol
7.	Gorchuddion wyneb: coronafeirws
8.	Canllawiau i gyflogwyr a busnesau ar COVID-19
9.	Hunanyngysu: canllawiau aros gartref i aelwydydd â coronafeirws posibl
10.	Cymryd pob cam rhesymol i gadw pellter corfforol yn y gweithle
11.	Cymryd pob cam rhesymol i gadw pellter corfforol yn y gweithle – canllawiau atodol
12.	Teithio'n ddiogel (coronafeirws): canllawiau i'r cyhoedd
13.	Gwarchod ac amddiffyn pobl a ddiffinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws
14.	Profi, Olrhain, Diogelu
15.	Cwestiynau Cyffredin Profi, Olrhain, Diogelu

Dolenni Cyflym: Canllawiau Penodol i'r Sector

Dolenni trydydd parti:

I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau, rydym wedi darparu dolenni at wefannau allanol neu wefannau trydydd parti. Byddwch yn dilyn y dolenni i safleoedd eraill ar eich menter eich hun ac nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw un o'r safleoedd hyn na'u cynnwys.

Nid yw unrhyw ddolen gennym ni i wefan allanol yn golygu nac yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo nac yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys gwefan o'r fath na'r defnydd a wneir ohoni. Ar ben hynny, efallai y bydd rhai safleoedd sy'n benodol i ddiwydiant penodol yn cynnwys cyfeiriadau gan Lywodraeth y DU nad ydynt yn berthnasol yng Nghymru.

Gwestai a Llety	
Gwestai a mathau eraill o lety Mae UK Hospitality Cymru (UKH Cymru) wedi cyhoeddi canllawiau sy'n cynnwys gwestai, mathau eraill o lety, a thafarndai a bwtai.	UKH Cymru
Hunanddarpar Yn ogystal â'r canllawiau gan UKH Cymru a nodir uchod, mae canllawiau ychwanegol i'r sector ar gael drwy Gynghrair Twristiaeth Cymru gydag adnoddau a chyngor.	Cynghrair Twristiaeth Cymru Y Gymdeithas Llety Tymor Byr Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Carafannau/Gwersylla/Cartrefi Modur a Pharciau Gwyliau Yn ogystal â'r canllawiau gan UKH Cymru a nodir uchod, mae canllawiau ychwanegol i'r sector ar gael gydag adnoddau a chyngor.	Cyngor Cenedlaethol y Carafannau Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain Clwb Carafannau a Chartrefi Modur
Cychod gwestai/llogi cychod gwyliau a dyfrffyrdd	British Marine
Bariau, bwtai, caffis ac arlwyo Mae canllawiau ar gael i'r sector gydag adnoddau a chyngor.	UKH Cymru Bydd rhagor o ganllawiau'n dilyn – dewch yn ôl.
Atyniadau dan do ac yn yr awyr agored, darparwyr gweithgareddau a thywysyddion teithiau	
Parciau adloniant, atyniadau a chanolfannau adloniant i deuluoedd Mae canllawiau wedi cael eu cyhoeddi gan UK Hospitality.	UKH Cymru
Atyniadau Yn ogystal â'r canllawiau gan UK Hospitality mae Cymdeithas y Prif Atyniadau i Ymwelwyr (ALVA) hefyd yn datblygu canllawiau i atyniadau unigol ymysg eu haelodau ac yn rhannu templedi/enghreiffiau o'r arferion gorau er mwyn i atyniadau dan do ac yn yr awyr agored allu cynnal asesiadau risg.	UKH Cymru Cymdeithas y Prif Atyniadau i Ymwelwyr
Lleoliadau/adeiladau/atyniadau Diwylliant a Threftadaeth Mae canllawiau perthnasol eraill ar gyfer amgueddfeydd wedi cael eu drafftio gan y Cyngor Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol .	Llywodraeth Cymru Canllawiau National Museum Directors Council
Lleoliadau digwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored (ee theatrau, sinemâu a neuaddau cyngerdd a gwyliau awyr agored) Bydd rhai yn dod o dan ganllawiau Llywodraeth y DU ar Ddigwyddiadau ac Adloniant.	Dolen i ddilyn – dewch yn ôl

Sŵau ac Acwaria Mae Cymdeithas Sŵau ac Acwaria Prydain ac Iwerddon (BIAZA) wedi cyhoeddi adnoddau a chanllawiau sydd ar gael i sŵau ac acwaria.	Cymdeithas Sŵau ac Acwaria Prydain ac Iwerddon
Canllawiau ar gyfer ailagor safleoedd naturiol a diwylliannol at ddibenion hamdden A gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.	Cyfoeth Naturiol Cymru
Darparwyr Gweithgareddau ac Anturiaethau Mae Cynghrair Awyr Agored Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol.	Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Antur Cymru
Teithiau Tywys	Y Sefydliad Tywys Twristiaid
Chwaraeon a hamdden canllawiau Gan gynnwys gweithgareddau ar y traeth ac ar gwch.	Llywodraeth Cymru Cannllawiau
Dylai Rheilffyrdd Treftadaeth Dilyn y cynllun adfer Office of Rail and Road (ORR).	Office of Rail and Road
Darparu toiledau	Llywodraeth Cymru Cannllawiau
Digwyddiadau busnes	
Cyfarfodydd Mae Cymdeithas y Diwydiant Cyfarfodydd wedi cynhyrchu canllawiau'n benodol ar gyfer lleoliadau cynadleddau a chyfarfodydd, sydd hefyd wedi cael eu cynnwys yng nghanllawiau Lletygarwch ehangach y DU.	Cymdeithas y Diwydiant Cyfarfodydd UKH Cymru
Canolfannau Arddangosfeydd a Chynadleddau Mae canllawiau ar gael gan y cyrff diwydiant canlynol: ICCA: Y Gymdeithas Ryngwladol Cynadleddau a Chonfensiynau AIPC: Cymdeithas Ryngwladol y Canolfannau Confensiwn UFI: Cymdeithas Fyd-eang y Diwydiant Arddangosfeydd AEO: Cymdeithas y Trefnwyr Digwyddiadau ESSA: Cymdeithas Cyflenwyr a Gwasanaethau Digwyddiadau AEV: Cymdeithas y Lleoliadau Digwyddiadau BVEP: Y Bartneriaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes	Cais gan: Y Gymdeithas Ryngwladol Cynadleddau a Chonfensiynau Cymdeithas Fyd-eang y Diwydiant Arddangosfeydd Cymdeithas y Trefnwyr Digwyddiadau Cymdeithas Cyflenwyr a Gwasanaethau Digwyddiadau Cymdeithas y Lleoliadau Digwyddiadau Y Bartneriaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes
Gofynion arlwy Dylech chi ystyried y canllawiau ar gyfer y gweithle yn ogystal â chanllawiau perthnasol ar Dafarndai a Bwytaï a chanllawiau Arlwy'r DU ar gyfer gofynion arlwy.	Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithle UKH Cymru Bydd rhagor o ganllawiau'n dilyn – dewch yn ôl.

Canllawiau ar ddigwyddiadau

Mae canllawiau ar gyfer digwyddiadau a gwyliau awyr agored wrthi'n cael eu datblygu'n unol â'r amserlenni ailagor tebygol – dewch yn ôl i weld y rhain.